**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 15-03-21**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Steve Collings, Annwen Hughes, Edgar Owen, Elfed Williams, Gareth Morris Jones, Elin W Jones, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Gareth Williams a Roy Owen

**Swyddogion:**

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Owen

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Rhagfyr 2il 2019 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd

26-01-2021, 08-12-2020, 22-10-2020, 06-10-2020, 09-07-2020, 09-03-2020
12-02-2020, 18-12-2019 a 21-11-2019

## 8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo ffioedd arfaethedig trwyddedau tacsi 2021/22. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor hwn, yn ôl yn 2013, wedi penderfynu y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol a hynny i adennill costau yn llawn. Amlygwyd nad oedd ffioedd Gwynedd wedi newid ers 2019.

Wrth asesu'r sefyllfa ac ystyried sgil effeithiau argyfwng covid 19 ar y diwydiant, awgrymwyd nad oedd cyfiawnhad dros gynyddu'r ffioedd yn sylweddol am y flwyddyn ariannol nesaf, ond i'r Pwyllgor ystyried cynnydd chwyddiant dros y ddwy flynedd diwethaf yn unig ar gyfer pob ffi trwyddedu tacsi. Amcangyfirifwyd y byddai hyn yn gyfystyr a chynnydd o 2.56% ar bob ffi trwydded.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo codi'r ffioedd i'r lefel arfaethedig yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.

Diolchwyd am yr adroddiad ac hefyd am y gefnogaeth roedd yr Uned Trwyddedu wedi ei roi i'r diwydiant tacsi dros gyfnod yr argyfwng

Cynigiwyd ac eiliwyd i ohirio'r penderfyniad i gynyddu'r ffioedd am flwyddyn gan wneud cais i'r Adran Cyllid ddefnyddio arian ychwanegol mae wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth mewn ymateb i effeithiau covid 19.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i godi'r ffioedd gan y byddai angen torri arian o wasanaeth arall i gau'r bwlch.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Cydymdeimlwyd gyda'r diwydiant tacsi, a phob diwydiant arall sydd wedi dioddef yn sgil effaith covid 19
- Bod angen gwarchod ein cymunedau
- O gynyddu'r ffioedd, £8 yw'r codiad mwyaf

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chymharu'r ffioedd gyda chynghorau eraill ar draws y Gogledd, ymddengys bod ffioedd Gwynedd, yn gyffredinol, yn gorwedd yn 'y canol'.

Ategodd Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd bod yr egwyddor o adennill costau yn unig wedi ei sefydlu yn 2013 ac os nad yw'r gwasanaeth yn adennill y costau hynny drwy godi ffioedd, yna, byddai rhaid ceisio arian o rywle arall. Adroddwyd nad oedd y ffioedd wedi codi ers 2019 a bod y diwydiant wedi derbyn cefnogaeth drwy ffynhonellau ariannol ychwanegol i fod yn 'saff' dros gyfnod yr argyfwng.

Pleidleiswyd ar y cynnig i godi'r ffioedd

**PENDERFYNWYD GWRTHOD Y CYNNIG I GODI'R FFIOEDD I'R LEFEL A ARGYMHELLWYD**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:50am